**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Fedi 21ain, 2009 yng Ngorsaf Dân, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y.p.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau); S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

1 TRO O AMGYLCH GORSAF DÂN WRECSAM

1.1 Cynhaliwyd y cyfarfod yng ngorsaf dân Wrecsam er mwyn i'r Aelodau gael tro o amgylch yr adeilad a gweld yr amodau a'r cyfleusterau presennol. Yna, cyflwynwyd y cynlluniau ar gyfer yr adeilad teir-ran gan Stephen Roberts, Rheolwr Cyfleusterau. Cost uchafswm yr adeilad newydd fydd £5m. Y gobaith yw y bydd y Cynulliad a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn prynu'r tir, ac yn codi rhent fforddiadwy ar y Gwasanaeth Tân ac Achub.

1.2 Cododd y Cyng. Owen bryderon ynglŷn â'r broses dendro, a chytunwyd y byddai'n siarad â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wedi'r cyfarfod. Esboniwyd y broses dendro, a nodwyd i'r rhestr o gontractwyr gael ei thynnu o'r gronfa ddata ar gyfer adeiladu yr oedd y Cynulliad yn ei hargymell. Gwahoddir contractwyr na roddir ar y rhestr fer i gysylltu â'r swyddogion i drafod unrhyw faterion o bryder.

2 DATGANIADAU BUDDIANT

2.1 Datganodd y Cynghorwyr Brian Dunn a JV Owen fuddiant mewn perthynas â'r adroddiad ar Daliadau Pensiynau'r Diffoddwyr Tân yn rhan II.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 13eg, 2009 yn gofnod gwir a chywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw fater yn codi.

5 CYLCH GORCHWYL

5.1 Gofynnwyd i'r Panel Gweithredol ystyried cylch gorchwyl diwygiedig yn dilyn sefydlu Pwyllgor Archwilio i'r Awdurdod.

5.2 Cododd y Cyng. T Roberts bryderon ynglŷn â "2.3 (i) Y Panel Gweithredol i fod yn Banel Penodiadau wrth benodi Prif Swyddog Tân". Gan yr Awdurdod Tân yn llawn yr oedd y Prif Swyddog Tân presennol wedi ei benodi, a theimlai'r Cyng. Roberts y dylid parhau â'r drefn honno.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cylch gorchwyl diwygiedig, yn amodol ar ddileu 2.3 (i).**

6 STRATEGAETH TGCh

6.1 Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ar y strategaeth TGCh. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks y gwahanol agweddau ar y prosiectau TGCh, sydd bob un yn rhyng-gysylltiedig.

(i) Prosiect Airwave – bydd hwn yn galluogi gwasanaethau'r heddlu, ambiwlans a thân ac achub i gyfathrebu ar yr un system radio.

(ii) System Gyfathrebu Integredig yr Ystafell Reoli - wedi ei gosod yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a'r ail ystafell reoli yn y Rhyl. Mae'r system hon yn rheoli'r holl ddata llais i staff yr ystafell reoli.

(iii) Prosiect data symudol - mae'r system hon yn trosglwyddo data i staff rheng flaen trwy gyfrifiaduron yn y peiriannau tân. Bydd hyn yn darparu mynediad at wybodaeth yr ochr weithredol, systemau mapio a gwybodaeth dechnegol risg-gritigol.

(iv) Prosiect System Rheoli Cofnodion Tân (RMS) - system cefn swyddfa sy'n storio gwybodaeth yr ochr weithredol, gwybodaeth am ddiogelwch tân deddfwriaethol a gwybodaeth am ddigwyddiadau mewn perthynas â safleoedd unigol.

(v) Prosiect diweddaru'r Rhwydwaith – mae hyn er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth weinyddwyr sy'n gallu delio â'r holl ddata ychwanegol.

(vi) Prosiect Cydnerthedd – cysylltu'r tair ystafell reoli yng Nghymru i ystafell reoli rithwir a fydd yn darparu system wrth gefn petai un o'r ystafelloedd rheoli'n methu.

6.2 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd bod y tri Gwasanaeth yng Nghymru wrthi'n buddsoddi'n fawr mewn TGCh. Roedd penderfyniadau ynglŷn â rhai o'r prosiectau, megis Firelink, wedi eu gwneud ar lefel y llywodraeth, ond roedd angen yr holl systemau gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig, ac y byddent yn galluogi'r staff i fod yn fwy effeithlon. Byddai llawer iawn o wybodaeth, a fyddai ar gael i'w rhannu, o les i ddiogelwch y diffoddwyr tân a'r cyhoedd.

6.3 Er i'r Aelodau fynegi pryderon am gost gosod y systemau newydd, ynghyd â'r costau cynnal a chadw, atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân am y gost bosib o beidio â chael systemau digonol mewn lle petai yna ddigwyddiad mawr.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 Y DATGANIAD O GYFRIFON 2008/09 A LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

7.1 Cafodd y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2008-2009 a llythyr cynrychiolaeth gan y Trysorydd eu cyflwyno i'r Aelodau er gwybodaeth. Roedd y cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG, a'u diwygio yn unol â chanfyddiadau a gafwyd yn dilyn yr archwiliad a'r trafodaethau wedi hynny ynglŷn â'r ymdriniaeth gyfrifydda, diffiniadau a'r modd y cyflwynwyd rhai eitemau o fewn y cyfrifon.

7.2 Bu'r cyrff Archwilio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cynnal trafodaethau ynglŷn ag effaith bosib y Datganiad o Gyfrifon ar y Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS17), gan ystyried y costau pensiynau, o ganlyniad i ddarganfod gwall yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003, sy'n caniatáu dadwneud cofnodion FRS17. Cadarnhaodd y Trysorydd y cytunwyd nad oedd raid i Gymru wneud y newid, ond y byddai angen gwneud newid bychan i'r geiriad yn y datganiad o gyfrifon. Byddai'r llythyr cynrychiolaeth yn aros yr un fath.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) nodi'r Datganiad diwygiedig o Gyfrifon ar gyfer 2008-09, yn amodol ar newid pellach ynglŷn ag FRS17 fel ym mharagraff 7.2;**
- **(ii) cydnabod y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.**

8 Y SAFON RYNGWLADOL AR ARCHWILIO (ISA) 260 – ADRODDIAD I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHIANT

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau gan Joanne West, Rheolwr Archwilio o KPMG. Yn unol â'r safon ryngwladol 260, roedd raid cyfleu'r materion allweddol o'r datganiad o gyfrifon i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

8.2 Nid oedd gan yr archwilwyr unrhyw bryderon ynghylch yr arferion cyfrifyddu, ac nid oeddent wedi nodi unrhyw wendidau o ran rheolaeth fewnol. Byddai'r cyfrifon wedi eu cwblhau erbyn Medi 30ain.

8.3 Llongyfarchwyd y tîm archwilio a chyllid gan yr Aelodau, a **PHENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9 Y DIWEDDARAF YNGLŶN Â'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS A'R CYSYLLTIADAU Â'R CYNLLUN GWELLA A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN LLEIHAU RISG

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi'r diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd dros fisoedd yr haf, a'r estyniad a gafwyd hyd at ddiwedd mis Medi.

9.2 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau i fwy o ymatebion ddod i law mewn perthynas â'r ymgynghoriad nag yn y blynyddoedd a fu, a'u bod yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau. Gyda chytundeb Swyddfa Archwilio Cymru, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn hyd at ddiwedd mis Medi.

9.3 Byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r gweithgor gofal tân ac adolygu risg, a fyddai'n cael ei ailgynnull ym mis Hydref.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r estyniad i'r broses ymgynghori;**

**(ii) cymeradwyo'r cynnig i gyfeirio canlyniadau'r ymgynghoriad i'r gweithgor gofal tân ac adolygu risg a oedd wedi ei ailgynnull, ac aelodaeth y gweithgor hwnnw fydd: Y Cyng. S Frobisher; Y Cyng. A M Jones; Y Cyng. M Ll Davies; Y Cyng. Dunn; Y Cyng. G C Evans; Y Cyng. P Jeffares; Y Cyng. J V Owen; Y Cyng. B Roberts; Y Cyng. T Roberts.**

10 YR OPSIYNAU AR GYFER CYLLIDEB 2010/11

10.1 Ar Orffennaf 13eg, 2009, roedd yr Aelodau wedi derbyn papur ynglŷn â'r opsiynau o ran y gyllideb, ac roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r pwysau y gwyddys a fydd ar y gyllideb yn 2010/11 a thu hwnt. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r codiad canrannol darbodus ar gyfer dyfarniadau cyflog a chwyddiant a fydd yn cael eu hymgorffori o fewn y gyllideb ar gyfer 2010/11.

10.2 Eglurhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y gwahanol linellau gwariant yn y gyllideb, a thynnu sylw at y canlynol:

- Bellach, roedd y llinellau costau cyflogau tua £62k, yn hytrach na £293k, a hynny o ganlyniad i'r cyflogau gael eu gwneud yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Byddai angen i'r Aelodau benderfynu ar lefel ddarbodus o chwyddiant cyffredinol ar gyfer 2010/11.
- Amcangyfrifid mai £3m fyddai cyllideb Firelink ar gyfer Cymru, ond nid oedd yn hysbys faint o hyn fyddai ar gael ar gyfer Gogledd Cymru.
- Cadarnhau y gellid cynnwys costau gwerthuso swyddi o fewn y £169,195 a neilltuwyd.

- Galluogrwydd Tymor Hir – nid yw'r gost yn wybyddus, ond roedd yn debygol y byddai'r Awdurdod yn gallu cwrdd â'r gost ond y gallai godi yn y blynyddoedd i ddod.

10.3 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau am allyriadau carbon, cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod wasanaethau swyddog amgylcheddol a gyflogir gan Heddlu Gogledd Cymru sydd â'i ddyletswyddau'n golygu sicrhau bod adeiladau'n dod mor ynni-effeithlon ag y bo modd. Nid yw hyn yn bwysau ar y gyllideb.

10.4 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Trysorydd fod y Setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Cymru yn debygol o fod yn isel, gyda chyfartaledd posib o 1.3%. Disgwylid rhagor o ddatganiadau ynglŷn â'r gyllideb ar Hydref 13eg. Nid oedd y Trysorydd yn gallu argymell codiad canrannol o 5.14% a nodwyd yn y papur, a byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i liniaru'r costau lle bo modd.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi'r pwysau y tynnwyd sylw atynt, y gofynion o ran y gyllideb, a'r risg sy'n ynghlwm â phob rhagdybiaeth o ran cynllunio.**

11 MONITRO PERFFORMIAD

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth.

11.2 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod diwyg newydd ar gyfer monitro perfformiad wedi ei gyflwyno yng Nghymru a Lloegr ar Ebrill 1af, 2009, ac roedd rhai materion eto i'r penderfynu cyn i'r system allu cymharu tebyg â thebyg gyda blynyddoedd blaenorol. Yn y dyfodol, byddai'r system yn gallu darparu llawer mwy o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau.

11.3 Tynnodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân sylw at yr hyn a ganlyn:

- cynnydd bychan mewn tanau simnai a oedd wedi ei ragweld, a bod y tîm diogelwch tân cymunedol yn gweithio yn y gymuned i dynnu sylw at y peryglon.
- na fu marwolaethau tân damweiniol mewn cartrefi ers dechrau'r flwyddyn ariannol.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad perfformiad.**

12 Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG 2010-13

12.1 Gofynnwyd i'r Panel Gweithredol gymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, cyn iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus.

12.2 Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks fod y cynllun diwygiedig yn amlinellu manylion y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a gafodd ei lansio yn gynharach yn y flwyddyn ac sy'n seiliedig ar ddull graddol o gyrraedd nodau dros y tair i bum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu'r modd y mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwella'r agwedd gadarnhaol tuag at y

defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n rhaid i aelodau newydd o'r staff lwyddo mewn prawf lefel 1 yn y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ynganu enwau a chyfarch pobl yn gywir - o 2010 ymlaen, y gofyniad fydd llwyddo mewn prawf lefel 2.

12.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 er mwyn iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus.**

13 ADRODDIAD MONITRO AR GYFER BWRDD YR IAITH GYMRAEG

13.1 Mae gofyn i'r Gwasanaeth lunio adroddiad monitro blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'i gynllun iaith Gymraeg. Gofynnwyd i'r Panel Gweithredol gymeradwyo'r adroddiad monitro cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

13.2 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth gan y Cyng. G Evans am y ffordd y mae'n ymdrin â'r Gymraeg, ac roedd yn amlwg fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y swyddfeydd, a bod hynny'n cael ei werthfawrogi gan siaradwyr Cymraeg.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a chymeradwyo'r adroddiad monitro i'w gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.**

14 DARPARU RHEOLWYR AR YR OCHR WEITHREDOL

14.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon gyflwyniad i'r Aelodau am yr adolygiad o'r swyddogion wrth gefn mewn digwyddiadau gweithredol.

14.2 Fel rhan o'r cynllun lleihau risg 2009/10, cytunwyd y byddai adolygiad o o rota/dyletswydd gyfredol swyddogion wrth gefn yn cael ei gynnal. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon mai'r System Rheoli Digwyddiau (*Incident Command System (ICS)*) yw'r system a fabwysiadwyd yn genedlaethol ar gyfer rheoli digwyddiadau. Mae'n darparu ar gyfer gofal gan swyddogion ar yr un lefel 24 awr, 7 niwrnod yr wythnos, 365 niwrnod y flwyddyn. Rhai o anfanteision y system gyfredol yw nad yw'n:

- darparu sicrwydd ar yr ochr weithredol
- adlewyrchu'r galw
- gwneud y mwyaf o gyflwyno gwaith ataliol

14.3 Gyda'r system rota/dyletswydd gyfredol, y potensial a gollir am bob swyddog oedd 520 o oriau'r flwyddyn/65 o ddiwrnodiau gwaith, a'r potensial a gollir gan y Gwasanaeth oedd 14560 o oriau'r flwyddyn neu 1820 o ddiwrnodiau gwaith.

14.4 Roedd yr adolygiad wedi ennyn cyfranogiad yr holl swyddogion, ac wedi canolbwyntio ar gyd-destun, yr arferion cyfredol a'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol. Ymgynghorwyd â'r swyddogion y byddid yn effeithio arnynt, ac er bod rhai pryderon, roeddent, ar y cyfan, yn cydnabod yr achos dros gael newid. Ar hyn o bryd, roedd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon yn llunio adroddiad i'w ystyried gan y Prif Swyddog Tân.

14.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

15 TALIADAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – RHAN II

15.1 Cafodd yr Aelodau wybod am nifer o anghysonderau a ganfuwyd gan y darparwr pensiwn newydd, Cynllun Pensiwn Dyfed (gweinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin). Daeth rhain i'r amlwg wrth wirio ffeiliau a drosglwyddwyd o Gynllun Pensiwn Clwyd a oedd arfer a gweinyddu'r cynllun pensiwn ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

15.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r ffordd o roi gwybod i'r rhai y mae cywiro'r anghysonderau hyn yn effeithio arnynt;**

**(iii) cymeradwyo'r cynnig i beidio ag adennill y gordaliadau a fu.**